

Y wybodaeth y bydd arnoch ei hangen


Cyn i chi wneud cais am gyllid, hoffem ddweud wrthyh chi am y math o wybodaeth y byddwn yn gofyn amdani ar ein ffurflenni cais newydd. Gobeithio y bydd hyn yn gyfle i chi gasglu'r wybodaeth at ei gilydd ymlaen llaw, fel ei bod ar gael yn hwylus i chi wrth i chi lenwi eich cais.

Ceisio Cefnogaeth i'ch Prosiect cyn i chi wneud cais


O'n profiad ni, yr ymgeiswyr hynny sydd wedi cysylltu â Sefydliadau eraill am gefnogaeth i'w Prosiect yw'r rhai mwyaf llwyddiannus fel rheol o ran derbyn cyllid gan Chwaraeon Cymru. Dyma'r math o Sefydliadau rydym yn cyfeirio atynt:

- Tîm Datblygu Chwaraeon eich Awdurdod Lleol
- Eich Corff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol
- Busnes Cymru


Gall y Sefydliadau hyn eich helpu chi drwy'r broses ymgeisio, gan roi cefnogaeth a chyngor ar yr hyn a ddisgwylir. Hefyd gallant helpu gyda chyswllt â strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Ydych chi wedi cysylltu ag unrhyw sefydliad arall i gefnogi eich Prosiect? 

Er enghraifft, Tîm Datblygu Chwaraeon yr Awdurdod Lleol, Corff Rheoli Cenedlaethol, Business Cymru, ac ati.

Do Naddo 

Esboniwch y cyswllt rydych chi wedi'i gael



Words: 0 (Limit: 1000)

Cyfrif Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd


Er mwyn gwneud cais llwyddiannus am gyllid bydd rhaid i chi gael Cyfrif Banc, Cyfrif Cymdeithas Adeiladu neu Gyfrif Undeb Credyd yn enw eich Sefydliad neu eich Clwb Chwaraeon. Dim ond i Gyfrif Sefydliad neu Glwb Chwaraeon gaiff Chwaraeon Cymru dalu cyllid, o dan reoliadau Llywodraeth Cymru a'r Loteri, ac nid i Gyfrif unigolyn. Gan mai dim ond drwy BACS mae Chwaraeon Cymru yn gwneud taliadau, bydd yn ofynnol i chi ddarparu manylion Cyfrif eich Sefydliad neu eich Clwb Chwaraeon ar eich cais.

Manylion y Cyfrif

Dyma fanylion y cyfrif Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd ar gyfer y Sefydliad yr ydych yn gwneud cais ar ei ran

Math o Gyfrif
Pa fath o gyfrif sydd gan eich Sefydliad?

Cyfrif Banc •

Enw'r Cyfrif 
Sut mae enw eich Sefydliad yn ymddangos ar y cyfrif Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd?

ABC Rygbi •

Cod Didoli

- - •

Rhif y Cyfrif

•

Nodyn: Ar y dudalen Dogfennau Ategol, bydd rhaid i chi roi tystiolaeth bod manylion y cyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu rydych chi wedi'u rhoi uchod ar gyfer eich Sefydliad. Gall hyn fod ar ffurf copi wedi'i sganio o Ddatganiad Banc neu Gymdeithas Adeiladu, copi wedi'i sganio o siec wag neu slip talu i mewn gwag ac ati.

Hefyd bydd rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod manylion y Cyfrif Banc/Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd rydych yn eu rhoi ar eich ffurflen gais ar gyfer cyfrif Sefydliad neu Glwb Chwaraeon, ac nid cyfrif unigolyn. Y dystiolaeth y bydd Chwaraeon Cymru yn ei derbyn yw:

- Llun neu gopi wedi'i sganio o Ddatganiad banc – gellir cuddio manylion y trafodion a'r balans ond rhaid i enw'r Banc, Enw Deiliad y Cyfrif a'i Gyfeiriad, Enw'r Cyfrif, y Cod Didoli a Rhif y Cyfrif fod yn weladwy
- Llun neu gopi wedi'i sganio o siec wag ar gyfer y Cyfrif
- Llun neu gopi wedi'i sganio o slip talu i mewn gwag ar gyfer y Cyfrif
- Llun neu gopi wedi'i sganio o lythyr gan eich Banc gyda manylion y Banc hwnnw arno
- Llun neu gopi wedi'i sganio o ddatganiad Balans Agoriadol ar gyfer y Cyfrif

Gellir defnyddio unrhyw un o'r dogfennau hyn fel tystiolaeth a'u hatodi i'ch cais ar y dudalen Dogfennau Ategol yn y ffurflen gais ar-lein.

Datganiadau Cyfrif Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd

Rhowch dystiolaeth bod manylion y cyfrif Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd rydych chi wedi'u nodi ar y dudalen Am Eich Sefydliad yn berthnasol i Sefydliad ac nid i unigolyn, drwy atodi un o'r canlynol:

- Datganiad Banc neu Gymdeithas Adeiladu wedi'i sganio;
- Slip Talu i Mewn wedi'i sganio;
- Siec wag wedi'i sganio; neu
- Datganiad Agoriadol neu lythyr gan eich Banc neu eich Cymdeithas Adeiladu wedi'i sganio.

Os oes gan eich Sefydliad Gyfrif Undeb Credyd, bydd arnom angen tystiolaeth bod y cyfrif yn enw eich Sefydliad, y math o gyfrif (e.e. Cyfrif Corfforaethol), yn ogystal â thystiolaeth nad oes cyfleuster benthyciad na gorddrafft ar y cyfrif. Ffafir tystiolaeth ar ffurf llythyr gan yr Undeb Credyd.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofyniad hwn, cliciwch ar yr uchod.

Sylwer: Os na fyddwch yn darparu'r datganiadau hyn, bydd oedi gydag asesu eich cais.

Datganiad Llwytho Banc

Datganiadau Cyfrif Banc 01008877.docx

[Edit](#) [Delete](#)

[Ychwanegu...](#)

Pa wybodaeth sydd arnom ei hangen?

Ar y Ffurflen Gais, byddwn eisiau gwybod am y canlynol:

- Chi a'ch Sefydliad/Clwb Chwaraeon.
- Strwythur eich Sefydliad/Clwb Chwaraeon - nifer y cyfranogwyr yn ddynion a merched dan 16 a thros 16 oed, gan gynnwys faint yn y grwpiau hynny sydd ag anabledd neu sydd o gefndir neu grŵp Du a Lleiafrifoedd Ethnig (DLIE), yr aelodau cymdeithasol / sydd ddim yn cymryd rhan, eich gweithlu - yr hyfforddwyr, y swyddogion (dyfarnwyr, sgorwyr ac ati), gwirfoddolwyr gan gynnwys Arweinwyr, Swyddogion Cymorth Cyntaf a Swyddogion Amddiffyn Plant, a hefyd unrhyw staff cyflogedig sy'n ymwneud â gweithgareddau chwaraeon eich clwb.
- Eich Prosiect a'r hyn rydych yn ceisio'i gyflawni.
- Yr Effaith fydd eich Prosiect yn ei chael yn eich barn chi a phwy a effeithir ganddo.
- Beth sydd arnoch ei angen ar gyfer eich Prosiect a faint fydd yn ei gostio a hefyd pa gyfraniadau, os o gwbl, ydych chi'n gallu eu gwneud tuag at gostau'r Prosiect.
 - *ar gyfer Grantiau Datblygu mae disgwyl 20% o gyfraniad o leiaf yn y rhan fwyaf o achosion*
 - *ar gyfer y Gist Gymunedol, mae cyfraniadau ariannol yn ddewisol*
 - *edrychwch ar wefan Chwaraeon Cymru i wirio pa Gostau Prosiect sy'n gymwys am gyllid, ar y dudalen Grantiau berthnasol*
- Dogfennau Ategol – Dyfynbrisiau, Datganiadau Banc, ac ati
- Pwy yn eich Sefydliad/Clwb Chwaraeon fydd yn gweithredu fel eich Aelod Awdurdodedig neu'r Ail Lofnodydd?

Dogfennau Ategol ar gyfer eich Cais

Bydd yn ofynnol i chi ddarparu Dogfennau i gefnogi eich cais. Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddogfennau electronig neu'n gopiâu wedi'u sganio o ddogfennau papur y gellir eu hatodi i'ch cais ar-lein. Bydd methu darparu'r dogfennau ategol hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich cais yn arwain at oedi gyda phrosesu eich cais o bosib, a gyda thalu unrhyw gyllid dilynol.

Dyma'r Dogfennau Ategol sydd eu hangen:

- Os ydych yn gwneud cais am Grant Datblygu, bydd Chwaraeon Cymru eisiau gweld 3 Datganiad Banc diwethaf holl gyfrifon banc eich Sefydliad neu eich Clwb Chwaraeon. Wedyn bydd Chwaraeon Cymru yn gallu gweld a yw'r cyllid ar gael gennych ar gyfer unrhyw gyfraniadau arfaethedig a hefyd bydd yn gallu penderfynu pa mor gynaliadwy fydd eich prosiect ar ôl i'r cyllid ddod i ben.
- Os ydych yn gwneud cais am Grant Datblygu, bydd arnom angen 3 dyfyn-bris ar gyfer offer gyda gwerth unigol o £250 neu fwy, oni bai fod yr offer yn arbenigol iawn, a bydd un dyfyn-bris yn dderbyniol wedyn.
- Os ydych yn gwneud cais am Grant Datblygu, bydd arnom angen 3 dyfyn-bris ar gyfer unrhyw waith sy'n ofynnol i gwblhau eich prosiect.
- Os ydych chi wedi dynodi eich bod yn gallu gwneud cyfraniad ariannol tuag at gostau eich Prosiect, bydd Chwaraeon Cymru eisiau tystiolaeth o unrhyw Gyfraniadau Ariannol sydd wedi'u cadarnhau, yn enwedig os ydynt o ffynonellau allanol e.e. Banc, Busnes lleol, darparwyr Grant eraill, ac ati.
- Dylid sganio ac atodi'r dogfennau perthnasol i gefnogi eich cais am gyllid a'u hatodi i'ch cais.

System Ymgeisio Chwaraeon Cymru
CC Grant Tracker

Dogfennau Ategol

Blaenorol
Nesaf
Cadw a Chau

Gwnewch yn siwr eich bod yn darparu'r dogfennau ategol yn unol â'r cais. Heb y dogfennau angenrheidiol, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

Dogfennau Atodol

Enw'r ffeil	Disgrifiad		
Additional Info 2.docx	Gwybodaeth Ychwanegol	Gweld	Rheolir ar dudalen gysylltiedig
Contribution Confirmation.docx	Dogfen Cyfraniad	Gweld	Rheolir ar dudalen gysylltiedig
Quotation - Equipment.docx	Offer Chwaraeon	Gweld	Dileu
Quotation - Work.docx	Dyfynbrisiau am Waith	Gweld	Dileu
Business Plan.docx	Dogfennau Eraill	Gweld	Dileu

Offer Chwaraeon > £250 Dyfyn-bris
Cyflwynwch 3 dyfyn-bris ar gyfer unrhyw eitemau unigol o offer sy'n costio mwy na £250. Os daw'r offer gan gyflenwr arbenigol, mae llai na 3 dyfyn-bris yn dderbyniol.
[Ychwanegu atodiad](#)

Amcangyfrifon / Dyfynbrisiau am Waith
Cyflwynwch 3 dyfyn-bris ar gyfer unrhyw waith sydd ei angen ar gyfer eich Prosiect.
[Ychwanegu atodiad](#)

Datganiadau Cyfrif Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd ⓘ
Rhowch ddatganiadau'r 3 mis diwethaf ar gyfer POB cyfrif sydd gan eich sefydliad.

Os oes gan eich Sefydliad gyfrif Undeb Credyd, bydd rhaid i chi roi tystiolaeth ar y dudalen Dogfennau Ategol bod y cyfrif yn enw eich Sefydliad, y math o gyfrif (e.e. Cyfrif Corfforaethol), yn ogystal â thystiolaeth nad oes cyfeuster benthyciad na gorddrafft ar y cyfrif. Ffafrif tystiolaeth ar ffurf llythyr gan yr Undeb Credyd.

Sylwer: Os na fyddwch yn darparu'r datganiadau hyn, bydd oedi gydag asesu eich cais.

Datganiad Llwytho Banc

Bank Statement 01008080.docx	Edit Delete
------------------------------	---

[Ychwanegu ...](#)

Dogfennau Eraill
Atodwch unrhyw ddogfennau eraill a all gefnogi eich cais, fel tystiolaeth o gyllid arall, ac ati. Os ydych yn Fusnes/Menter Gymdeithasol, atodwch eich Cynllun Busnes yma. Os oes elfen 'Ffitrwydd' yn rhan o'ch prosiect, atodwch dystiolaeth eich bod yn aelod o'r CSYP.
[Ychwanegu atodiad](#)

Sylwer: ar gyfer Ceisiadau'r Gist Gymunedol, dim ond tystiolaeth o'r Cyfrif Banc neu dystiolaeth o unrhyw gyfraniad ariannol sydd wedi'i gadarnhau sydd ei angen. Fodd bynnag, dylid darparu unrhyw ddogfennau y gallwch eu cynnig i gryfhau eich cais am gyllid.

Datganiad yr Ymgeisydd

Tudalen olaf y ffurflen gais ar-lein yw Datganiad yr Ymgeisydd. Ar y dudalen hon rhaid cwblhau nifer o gamau.

Ail Lofnodydd/Aelod Awdurdodedig

O dan reoliadau Chwaraeon Cymru rhaid cael 2 lofnod ar ffurflen gais am Grant. Er mwyn cyflawni hyn gyda system ar-lein, bydd rhaid i chi ddewis Aelod Awdurdodedig o'r Sefydliad sydd ag awdurdod i weithredu fel yr ail lofnodydd a chymeradwyo eich cais.

Rhaid i'r Aelod Awdurdodedig rydych yn ei enwebu fod â chyfeiriad e-bost dilys a mynediad i'r rhyngwrwyd, oherwydd bydd yn cael e-bost gan y system yn gofyn iddo gymryd rhan yn y broses gymeradwyo. Bydd yn ofynnol iddo fewngofnodi i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru a chadarnhau ei gyfranogiad cyn y gallwch gyflwyno eich cais. Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais, bydd yr Aelod Awdurdodedig yn cael e-bost gan y system eto a gofynnir iddo fewngofnodi i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru a "Chymeradwyo" y cais. Dim ond ar ôl iddo wneud hyn y caiff eich cais ei gyflwyno i Chwaraeon Cymru.


Sylwer bod proses arall ar gael os ydych chi'n Fasnachwr Unigol, neu os nad oes gan eich unig opsiwn fel ail lofnodydd gyfeiriad e-bost na mynediad i'r rhyngwrwyd. Fodd bynnag, byddai Chwaraeon Cymru yn argymhell eich bod yn dewis ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf uchod mewn perthynas ag e-bost / mynediad i'r rhyngwrwyd os yn bosib.

Telerau ac Amodau Chwaraeon Cymru

Ar dudalen Datganiad yr Ymgeisydd, gofynnir i chi ddarllen a derbyn Telerau ac Amodau Chwaraeon Cymru ar gyfer cyllid. Os NA fyddwch yn ticio'r bocs i dderbyn y Telerau a'r Amodau, ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich cais.

Gwrthdaro Buddiannau

Ar y dudalen hon gofynnir i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'ch prosiect. Gallai hyn fod yn berthnasol i chi neu aelod o'ch teulu agos sy'n gwneud rhywfaint o'r gwaith, neu'r gwaith i gyd, ar eich Prosiect ac yn derbyn ffi am hynny, neu ail lofnodydd neu Aelod Awdurdodedig sy'n cymeradwyo eich cais yn perthyn i chi. Os ydych chi'n credu bod gwrthdaro buddiannau, mae'n rhaid i chi ddatgan beth yw hwn.

Darperir rhagor o wybodaeth drwy gydol y ffurflen gais a gellir ei gweld drwy glicio ar y  , a fydd yn darparu help ac arweiniad ychwanegol ar gyfer y maes / pwnc perthnasol dan sylw.

Cofiwch y gallwch chi gadw a chau eich cais ar unrhyw adeg a dod yn ôl ato ar ôl cael hyd i'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen. Bydd eich Ffurflen Gais yn cael ei dilysu wrth i chi symud o dudalen i dudalen a dim ond ar ôl i chi ddarparu'r holl wybodaeth y mae Chwaraeon Cymru ei hangen y cewch ei chyflwyno.